**BWRDEISTREF SIROL BLAENAU GWENT**

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE CYFARFOD CYFFREDINOL Y CYNGOR** |
| **PWNC:** | **CYFARFOD CYFFREDINOL Y CYNGOR - DYDD IAU, 10 HYDREF 2019 DYDD IAU, 10 HYDREF 2019** |
| **ADRODDIAD GAN:** | |

---

PRESENNOL: M. MOORE (CADEIRYDD)

Cynghorwyr:
D. Bevan
G. Collier
J. Collins
M. Cook
M. Cross
N. Daniels
D. Davies
M. Day
P. Edwards
K. Hayden
S. Healy
J. Hill
J. Mason
H. McCarthy
C. Meredith
J. Millard
J. C. Morgan
J. P. Morgan
L. Parsons
G. Paulsen
K. Pritchard
K. Rowson
T. Sharrem
T. Smith
B. Summers
B. Thomas
S. Thomas
H. Trollope
J. Wilkins

D. Wilkshire
B. Willis
L. Winnett

A:

| EITEM | PWNC | GWAITH |
|---|---|---|
| **No. 1** | **<u>CYFIEITHU AR Y PRYD</u>**<br><br>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| **No. 2** | **<u>YMDDIHEURIADAU</u>**<br><br>Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan:-<br><br>Cynghorwyr P. Baldwin, G. A. Davies, G. L. Davies, L. Elias, D. Hancock, W. Hodgins, M. Holland, J. Holt. G. Thomas. | |
| **No. 3** | **<u>DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU</u>**<br><br>Adroddwyd y datganiad buddiant dilynol:-<br><br>**Cynghorydd J. C. Morgan**<br>Eitem Rhif 27: Rhaglen Cyfalaf 2019/2020 – 2025/2026 | |
| **No. 4** | **<u>CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD</u>**<br><br>**<u>Llongyfarchiadau</u>**<br><br>Estynnwyd llongyfarchiadau i:-<br><br>➢ Jack Minchin-Hayesn, disgybl yng Nghymuned Ddysgu Abertyleri (Campws Uwchradd) a gynrychiolodd Gymru yng Ngemau'r Gymanwlad yn Walsall. Enillodd Jack fedal efydd yn y Categori Jiwdo dan 42kg.<br><br>PENDERFYNWYD anfon llythyr yn ei longyfarch.<br><br>➢ Emily Hoskins, menyw ifanc o Abertyleri, oedd wedi siarad | |

| | | |
|---|---|---|
| | yn ddewr ar newyddion BBC Cymru a BBC Wales Live ar 2 Hydref 2019 am ei brwydr unigol gydag anhwylder bwyta, ac esbonio sut roedd yn ymgyrchu i wella cyfleusterau ar draws Cymru ar gyfer eraill sy'n brwydro gydag anhwylderau bwyta.<br><br>PENDERFYNWYD anfon llythyr at Emily yn ei chanmol am ei dewrder a datgan cefnogaeth i'w hymgyrch. | |
| **No. 5** | **<u>LLYFR COFNODION - MAI-MEDI 2019</u>**<br><br>Cyflwynwyd y Llyfr Cofnodion am y cyfnod Mai - Medi 2019 i'w ystyried, yn cynnwys:-<br><br>**<u>Eitem Rhif 17 - Pwyllgor Craffu Addysg a Dysgu - 26 Mehefin 2019</u>**<br><br>Dywedwyd y bu'r Cynghorydd Jonathan Millard yn bresennol yn y cyfarfod uchod.<br><br>PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, i gadarnhau'r cofnodion. | |
| **No. 6** | **<u>CYFARFOD CYFFREDINOL Y CYNGOR</u>**<br><br>PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, i gadarnhau'r cofnodion. | |
| **No. 7** | **<u>PWLLGOR CYNLLUNIO, RHEOLEIDDIO A THRWYDDEDU</u>**<br><br>PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, i gadarnhau'r cofnodion. | |
| **No. 8** | **<u>CYFARFOD ARBENNIG O'R PWYLLGOR CYNLLUNIO, RHEOLEIDDIO A THRWYDDEDU CYFFREDINOL</u>**<br><br>PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, i gadarnhau'r cofnodion. | |
| **No. 9** | **<u>PWYLLGOR TRWYDDEDU STATUDOL</u>** | |

| | | |
|---|---|---|
| | PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, i gadarnhau'r cofnodion. | |
| **No. 10** | **PWLLGOR CYNLLUNIO, RHEOLEIDDIO A THRWYDDEDU**<br><br>PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, i gadarnhau'r cofnodion. | |
| **No. 11** | **CYFARFOD ARBENNIG O'R PWYLLGOR CYNLLUNIO, RHEOLEIDDIO A THRWYDDEDU CYFFREDINOL**<br><br>PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, i gadarnhau'r cofnodion. | |
| **No. 12** | **CYFARFOD ARBENNIG O'R PWYLLGOR TRWYDDEDU STATUDOL**<br><br>PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, i gadarnhau'r cofnodion. | |
| **No. 13** | **PWYLLGOR GWAITH**<br><br>PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, i gadarnhau'r cofnodion. | |
| **No. 14** | **PWYLLGOR GWAITH**<br><br>PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, i gadarnhau'r cofnodion. | |
| **No. 15** | **CYFARFOD ARBENNIG O BWYLLGOR**<br><br>PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, i gadarnhau'r cofnodion. | |
| **No. 16** | **PWYLLGOR CRAFFU TROSOLWG CORFFORAETHOL**<br><br>PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, i gadarnhau'r | |

| | | |
|---|---|---|
| | cofnodion. | |
| **No. 17** | **PWYLLGOR ARCHWILIO**<br><br>PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, i gadarnhau'r cofnodion. | |
| **No. 18** | **PWLLGOR CRAFFU ADDYSG A DYSGU**<br><br>PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, i gadarnhau'r cofnodion. | |
| **No. 19** | **PWLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU CYMUNEDOL**<br><br>PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, i gadarnhau'r cofnodion. | |
| **No. 20** | **PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU CYMDEITHASOL**<br><br>PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, i gadarnhau'r cofnodion. | |
| **No. 21** | **CYFARFOD ARBENNIG O'R CYDBWYLLGOR CRAFFU (MONITRO'R GYLLIDEB)**<br><br>PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, i gadarnhau'r cofnodion. | |
| **No. 22** | **PWYLLGOR ARCHWILIO**<br><br>PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, i gadarnhau'r cofnodion. | |
| **No. 23** | **CYFARFOD ARBENNIG O'R PWYLLGOR CRAFFU TROSOLWG CORFFORAETHOL** | |

| | | |
|---|---|---|
| | PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, i gadarnhau'r cofnodion. | |
| **No. 24** | **<u>CWESTOUMAU AELODAU</u>**<br><br>Ni chafodd unrhyw gwestiynau eu cyflwyno gan Aelodau. | |
| **No. 25** | **<u>CWESTIYNAU GAN Y CYHEODD</u>**<br><br>Ni chyflwynwyd unrhyw gwestiynau gan aelodau'r cyhoedd. | |
| **No. 26** | **<u>CYNNIG - ABERFAN</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i'r Cynnig dilynol:-<br><br>Bod Cyngor Bwrdeistref Blaenau Gwent yn gwahodd ei ysgolion i arsylwi munud o dawelwch fore 21 Hydref bob blwyddyn i gofio'r 144 o blant, athrawon ac eraill a gollwyd ar y dyddiad hwnnw yn Aberfan yn 1966, yn ogystal â miloedd di-rif o filoedd a fu farw yn y diwydiant glo yn y wlad a llawer o rannau eraill o'r byd.<br><br>Mewn pleidlais cafodd y cynnig ei<br><br>BENDERFYNU yn unfrydol. | |
| **No. 27** | **<u>BLAENRAGLEN GWAITH ARFAETHEDIG 2019/20</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Swyddog Democrataidd.<br><br>Dywedodd Arweinydd y Cyngor y gyflwynwyd y Flaenraglen Gwaith Arfaethedig flynyddol y Cyngor i'w chymeradwyo. Nodwyd, yn yr un modd ag unrhyw raglen waith, fod hon yn ddogfen a all newid gyda hyblygrwydd i ganiatáu adolygu rheolaidd. Daeth yr Arweinydd i ben drwy gynnig cymeradwyo'r ddogfen.<br><br>Mewn pleidlais unfrydol,<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, h.y. cymeradwyo Blaenraglen Gwaith y Cyngor 2019/2020. | |
| **No. 28** | **<u>RHAGLEN CYFALAF - 2019/2020-2025/2026</u>** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Cyflwynwyd adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau i gael ei ystyried.<br><br>Ar wahoddiad y Cadeirydd, siaradodd y Prif Swyddog Adnoddau yn fanwl am yr adroddiad a gyflwynwyd i Aelodau i ystyried opsiynau i ddyrannu £9.9m o gyllid cyfalaf i'r rhaglen gyfalaf am y cyfnod 2025/26 yn seiliedig ar adolygiad o'r adnoddau cyfredol sydd ar gael a thybiaeth o gyllid cyfalaf gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2024/25 a 2025/26.<br><br>Ymunodd y Cynghorydd J. P. Morgan â'r cyfarfod ar y pwynt hwn.<br><br>Gan y dynodwyd swm sylweddol o brosiectau cyfalaf (cyfanswm o 27) am y cyfnod hwn, defnyddiwyd dull blaenoriaethu (yn defnyddio'r dull gweithredu dau gam a amlinellwyd ym mharagraff 2.8 yr adroddiad) fel modd o sicrhau y gallai'r prosiectau gyda blaenoriaeth uchaf symud ymlaen. Mae Atodiad 3 sydd ynghlwm â'r adroddiad yn rhoi crynodeb o'r holl brosiectau posibl ynghyd â'u sgorau cysylltiedig a safle yn seiliedig ar y broses dau gam.<br><br>Aeth y Prif Swyddog Adnoddau yn ei flaen drwy ddweud bod risg sylweddol i ddyrannu'r holl gyllid a ddynodwyd i'r rhaglen cyfalaf a phe byddai prosiectau eraill gyda blaenoriaeth uwch yn cael eu dynodi yn y dyfodol neu gynlluniau a gytunwyd yn fwy na'r gyllideb a gytunwyd, byddai angen i'r Cyngor ddynodi ffynonellau cyllid ychwanegol e.e. defnyddio cronfeydd wrth gefn, cyllid refeniw, ailflaenoriaethu prosiectau. Felly, i liniaru'r risg hwn, cynigwyd cadw cyllid wrth gefn a pheidio dyrannu'r holl adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd.<br><br>Wedyn amlinellwyd y tri opsiwn a dywedodd y swyddog mai Opsiwn 3 oedd yr opsiwn a ffafrir sy'n cynnwys cyfuniad o gwtogi'r cynlluniau yng nghyfnod 1 (2019/20 i 2023/24 y mae mwyaf o alw arno) gan 20% i ganiatáu'r cyllid hwn i ateb gofynion y nifer fwyaf bosibl o gynlluniau a dyrannu i'r prosiectau gyda sgôr uchaf, yng nghyfnodau 2 a 3, gan adael cyllid ar ôl ym mhob cyfnod ar gyfer dyrannu ar ddyddiad yn y dyfodol.<br><br>Nodwyd fod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'n ddiweddar y byddai nifer o grantiau cyfalaf uwch ar gyfer 2019 i 2021. Byddai'r Cyngor yn derbyn £410,000 yn 2019/2020 ar gyfer y Grant Adnewyddu Priffyrdd Cyhoeddus a grant cyfalaf yn gyfanswm o £444,465 i gefnogi ysgogiad economaidd o fewn awdurdodau lleol. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Daeth y Prif Swyddog Adnoddau i ben drwy ddweud, drwy gynyddu'r grantiau hyn a grantiau cyfalaf eraill, fod potensial i gynnal adolygiad pellach o ailddyrannu adnoddau cyfalaf yn yr amserlen hon.<br><br>Cafodd Aelodau wedyn gyfle i godi cwestiynau/rhoi sylwadau ar yr adroddiad.<br><br>**Canolfan Ailgylchu Gwastraff Cartref - Stad Ddiwydiannol Roseheyworth -** Cyfeiriodd Arweinydd y Grŵp Llafur at y prosiect cyfalaf neilltuol hwn a dywedodd i nifer o Aelodau yn 2016 ofyn am sefydlu gweithgor i wirio dilysrwydd y dull gweithredu ac wedi cynnal darn o waith ar y cynnig hwn.<br><br>Nodwyd y cyflwynwyd cynnig i Lywodraeth Cymru am swm o £2.5 miliwn ar gyfer 2019/2020 a holodd am statws y cynnig hwnnw h.y. a gafodd y Cyngor ei hysbysu p'un ai a fu'n llwyddiannus ai peidio.<br><br>Cadarnhaodd Arweinydd y Cyngor y cyflwynwyd cynnig a'i fod ef, y Rheolwr Gyfarwyddwr a'r Rheolwr Gwasanaeth, wedi cwrdd â'r Dirprwy Weinidog ac uwch weision sifil cyn gwyliau mis Awst. Teimlai i hwn fod yn gyfarfod cadarnhaol iawn a bod y cwestiynau a ofynnwyd gan Lywodraeth Cymru wedi rhoi rhywfaint o optimistiaeth. Daeth i ben drwy ddweud ei fod yn ymwybodol y byddai angen gwario unrhyw gyllid o fewn y flwyddyn ariannol bresennol ac felly disgwylid y derbynnir cais yng nghyswllt y cynnig yn ystod mis Hydref 2019.<br><br>Aeth Arweinydd y Grŵp Llafur ymlaen drwy ddweud, fodd bynnag, nad oedd y cyllid wedi'i ddyfarnu ar hyn o bryd ac mai'r manylyn oedd yn achosi pryder yn yr adroddiad oedd y disgwylid i'r Awdurdod hefyd gyfrannu elfen o'i gyllid ei hun at y cynllun. Yn ychwanegol, os cymeradwyir y cynnig, byddai Llywodraeth Cymru yn edrych ar yr awdurdod i sicrhau fod cyfraddau ailgylchu yn cynyddu.<br><br>Fodd bynnag, roedd yn sioc fawr iddo fod yr adroddiad yn nodi y byddai un safle HWRC ar agor 3 diwrnod yr wythnos a'r llall ar agor am 4 diwrnod yr wythnos, a dywedodd na fedrai ddeall sut y gallai'r dull gweithredu hwn gynyddu cyfraddau ailgylchu. Roedd yr adroddiad dilynol Eitem Rhif 28 Asesiad o Berfformiad 2018/19 wedi dangos fod yr Awdurdod wedi rhagori ar darged ailgylchu Llywodraeth Cymru yn y flwyddyn flaenorol. | |

Daeth Arweinydd y Grŵp Llafur i ben drwy ddweud gan nad yw'r ddogfen yn cynnwys unrhyw dystiolaeth y byddai'r cais am gyllid yn llwyddiannus ac y byddai'r gyfradd ailgylchu yn cynyddu (yn arbennig yn seiliedig ar y dull gweithredu 3 a 4 diwrnod), na fedrai gefnogi'r prosiect cyfalaf hwn.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor y rhoddwyd blaenoriaeth i'r prosiect fel rhan o broses y Cyngor ac os yw'r cais am gyfalaf yn llwyddiannus, cyflwynir adroddiadau pellach i'r Cyngor i brofi'r opsiynau gorau ar gyfer defnyddio'r safle newydd a'r safle presennol ac y byddai'r adroddiad hwn yn cynnwys manylion y trefniadau gweithredu.

Cyfeiriodd Arweinydd y Grŵp Llafur ar y dull blaenoriaethu a ddefnyddiwyd fel ffordd o sicrhau y gallai'r prosiectau cyfalaf gyda'r flaenoriaeth uchaf fynd rhagddynt a thybiai fod yn sicr fod y cynllun wedi cael blaenoriaeth wleidyddol, gan ei fod yn amau y byddai swyddogion wedi cyflwyno prosiect fyddai'n cadw'r sefyllfa bresennol yn nhermau dyddiau gweithredu ac a fedrai o bosibl arwain at ostyngiad yn y gyfradd ailgylchu.

**Gwelliant a Gynigiwyd:**
Dywedodd Arweinydd y Grŵp Llafur y byddai'n cefnogi'r prosiect yn seiliedig ar y gwelliant dilynol h.y. ***os cymeradwyir y cais am gyllid Llywodraeth Cymru ac os cynhyrchir adroddiad yn amlinellu dull gweithredu'r Cyngor yn y dyfodol.*** Ychwanegodd, os darperir gwasanaeth i'r cyhoedd, bod Aelodau yn pleidleisio ar y trefniadau gweithredol (h.y. oriau/dyddiau) ei fod yn dilysu'r cyfiawnhad dros yr ail Ganolfan Gwastraff Ailgylchu Cartrefi (HWRC). Os yw'r cais yn llwyddiannus byddai'n rhaid i'r Gweinidog deimlo fod y cyfleuster yn hanfodol i Flaenau Gwent barhau ei drywydd ar i fyny i gyflawni'r targed ailgylchu, cyflwynir adroddiad i'r Cyngor yng nghyswllt glo mân y cynnig.

Dywedodd Arweinydd y Grŵp Llafur fod yr wybodaeth y cyfeiriodd yr Aelod ato yn ffurfio rhan o'r ddogfen ac, felly, y dylid gwrthod y pwynt o drefn hwn.

Dywedodd yr Aelod na ddylai'r Arweinydd fod wedi codi pwynt o drefn pan fod yr wybodaeth a godwyd yn ddilys gan fod yr adroddiad yn dweud yn glir y byddai un HWRC ar agor am 3 diwrnod a'r HWRC arall ar agor am 4 diwrnod yr wythnos. Felly, byddai Aelodau yn pleidleisio ar yr wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad.

**Goblygiadau Refeniw -** Dywedodd Aelod arall y teimlai y byddai'r trefniadau agor 3 a 4 diwrnod yn achosi peth dryswch a holodd yng nghyswllt y goblygiadau refeniw ar gyfer y cynllun hwn os yw'n symud yn ei flaen.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor y byddai'r goblygiadau refeniw yn cael eu mapio mas os yw'r cynnig yn llwyddiannus ac y caiff yr wybodaeth hon wedyn ei chyflwyno i'r Cyngor ei hystyried. Aeth ymlaen drwy ddweud fod y gwaith yng nghyswllt y cynnig wedi dechrau yn 2016 dan yr arweinyddiaeth flaenorol a gydnabu oedd wedi bod yn ddigon da i'w gynnwys ef a'r Dirprwy Arweinydd presennol fel rhan o'r trafodaethau. Fodd bynnag, pe byddai gwaith ar y cynllun hwn wedi dechrau yn 2016 ac y cyflwynwyd cynnig posibl, byddai wedi bod yn ddyletswydd ar y swyddogion perthnasol yn cynnwys swyddogion o fewn Cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd ac Adnoddau i gynllunio ar gyfer unrhyw oblygiadau refeniw fyddai'n digwydd yn y dyfodol.

**Adolygu Darpariaeth Chwarae -** cyfeiriodd Aelod at y posibilrwydd i gynnig ar gyfer cyllid dan y cynllun Chwarae Newydd a lansir gan Lywodraeth Cymru. Dywedodd fod cryn dipyn o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cael ei brofi yn yr un ardal chwarae fach yn Ward Sirhywi ac i hyn gael ei waethygu gan ddatblygiad newydd diweddar ar hen safle Ysgol Rhoslan.

Aeth ymlaen drwy ddweud fod Aelodau yn gwybod o'r wasg am broblem gynyddol gordewdra mewn plant ifanc a dywedodd fod angen gwella darpariaeth chwarae i ganiatáu plant i ddod yn fwy egnïol. Wedyn gofynnodd yr Aelod yn ffurfiol am gynnal astudiaeth dichonolrwydd yn ardal Sirhywi gyda golwg ar wella'r cyfleusterau chwarae sydd ar gael ar hyn o bryd.

**Adolygiad CCTV -** dywedodd Aelod (oedd hefyd yn gynrychiolydd wedi'i benodi ar Banel Heddlu a Throseddu) iddi gael ei holi yng nghyfarfod diwethaf y Panel am y sefyllfa bresennol parthed CCTV ym Mlaenau Gwent. Dywedodd fod awdurdodau eraill wedi cael cynnal eu CCTV ym Mhencadlys yr Heddlu a bod yn awr angen ymateb gan Flaenau Gwent.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor fod y Cyngor yn trafod y rhaglen cyfalaf yn hytrach na CCTV a materion gweithredol.

Eglurodd y Rheolwr Gyfarwyddwr nad oedd y Comisiynydd Heddlu

a Throseddu wedi cynnig cyllid i alluogi Blaenau Gwent i ddefnyddio'r system y cyfeirir ato. Mae swyddogion o Heddlu Gwent yn gweithio ar achos busnes i gyflwyno hyn ond nid yw'r wybodaeth wedi'i derbyn hyd yma.

Mewn ymateb i gais i gysylltu â'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu oherwydd derbyn gwybodaeth sy'n gwrthddweud ei hun, dywedodd y Cadeirydd y byddai swyddogion yn dilyn y mater hwn.

**Rhaglen Buddsoddi mewn Mynwentydd -** croesawodd Aelod y buddsoddiad cyfalaf o £360,000 ar gyfer mynwentydd gan fod mawr angen hyn i wella'r ardaloedd ar draws Blaenau Gwent. Fodd bynnag, gan na fyddai £360,000 yn ddigon i wneud yr holl waith cynnal a chadw angenrheidiol o fewn mynwentydd, gofynnodd y dylai unrhyw arian pellach ar hap a dderbyniwyd gan Amlosgfa Gwent hefyd gael eu defnyddio fel rhan o'r rhaglen buddsoddi mewn mynwentydd.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor fod y prosiect hwn hefyd wedi derbyn mewnbwn gwleidyddol gan nad oedd mynwentydd wedi eu gosod o fewn y 12 prosiect uchaf o fewn y matrics sgorio. Cydnabu fod angen mwy o waith i drin cyflwr gwael y mynwentydd. Fodd bynnag, yng nghyswllt unrhyw ad-daliad gan Amlosgfa Gwent yn y dyfodol, mae'r Cyngor wedi cytuno ar bolisi y byddai unrhyw arian ar hap yn cael ei neilltuo i gronfeydd cyffredinol wrth gefn yn y lle cyntaf.

Aeth yr Arweinydd ymlaen drwy ddweud ei fod yn cydymdeimlo gyda'r Aelod ac eglurodd fod ymrwymiad gwleidyddol i adfer mynwentydd i fod yn ardaloedd urddasol.

**Gwelliant a Gynigiwyd -** Dywedodd Arweinydd y Grŵp Llafur nad oedd, yn anffodus, yn credu y byddai cyfraddau ailgylchu yn gwella gyda'r safleoedd ond ar agor am 3 a 4 diwrnod a chynigiodd y dylid cymeradwyo Opsiwn 3 gyda'r gwelliant dilynol h.y. **nad oes gostyngiad yn nyddiau gweithredu'r Ganolfan Ailgylchu Gwastraff Cartrefi arfaethedig yn Stad Ddiwydiannol Roseheyworth neu safle presennol Cwm Newydd ac y dylid cyflwyno achos busnes cadarn i'r Cyngor.**

Eiliwyd y gwelliant.

Cynigiodd Arweinydd y Cyngor y dylid cymeradwyo Opsiwn 3 yn yr

adroddiad a rhoddodd sicrwydd, os yw cynnig HWRC yn llwyddiannus, y byddai unrhyw broblemau am refeniw ac arferion gweithredol yn dod yn ôl i'r Cyngor am y drafodaeth lawnaf.

Gofynnwyd am bleidlais wedi'i chofnodi ac felly cafodd ei chynnal yng nghyswllt:

**O blaid y Gwelliant (HWRC Canolfan Ddiwydiannol Roseheyworth, na ddylai fod unrhyw ostyngiad yn y dyddiau gweithredu yn y safle arfaethedig na'r safle bresennol ac y dylid cyflwyno achos busnes cadarn i'r Cyngor):-**

**Cynghorwyr D. Bevan, M. Cross, K. Hayden, H. McCarthy, J. C. Morgan, T. Sharrem, T. Smith, S. Thomas, H. Trollope, D. Wilkshire, B. Willis, L. Winnett.**

**O blaid Opsiwn 3 (Opsiwn a Ffafrir) – Cynghorwyr G. Collier, J. Collins, M. Cook, N. Daniels, D. Davies, M. Day, P. Edwards, S. Healy, J. Hill, J. Mason , C. Meredith, M. Moore, J. P. Morgan, L. Parsons, G. Paulsen, K. Rowson, B. Summers, B. Thomas, J. Wilkins.**

Felly, ni chafodd y gwelliant a gynigiwyd ei gario.

**Ymatalodd y Cynghorydd J. Milland ei bleidlais.**

PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 3, sef:-

Cyfuniad o gwtogi'r cynlluniau yng nghyfnod 1 (2019/22 i 2023/24 y mae mwyaf o alw arno) gan 20% i ganiatáu'r cyllid i ddiwallu gofynion y nifer fwyaf bosibl o gynlluniau i gwrdd â gofynion y nifer uchaf posibl o gynlluniau a dyrannu i'r prosiectau sgôr uchaf yng nghyfnodau 2 a 3 gan adael y cyllid ar ôl ym mhob cyfnod i'w ddyrannu ar ddyddiad yn y dyfodol.

Cynigiwyd yr eithriadau dilynol i'r cwtogi 20%:-

- Prosiect Offer Cymunedol - mae Cytundeb Lefel Gwasanaeth yn ei le ar gyfer y swm contract.

- HWRC – mae'r cais yn cynrychioli 20% o amcangyfrif y gost ac yn tybio 80% o gyllid Grant Cyfalaf Llywodraeth Cymru.

| | | |
|---|---|---|
| | <ul><li>Prosiect Mynwentydd - £210,000 wedi'i gynnig gan y Pwyllgor Gweithredol dros 3 blynedd</li><li>Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl - wedi cwtogi gan £150,000 yn seiliedig ar y lefelau galw cyfredol.</li></ul>Cymeradwywyd y Rhaglen Cyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2025/2026. | |
| **No. 29** | **<u>ASESIAD PERFFORMIAD 2018/2019</u>**<br><br>Ystyriodd Aelodau adroddiad y Rheolwr Gwasanaeth - Perfformiad a Democrataidd.<br><br>Mae'r Asesiad Perfformiad yn cyflawni'r goblygiadau statudol a ddodwyd ar y Cyngor fel rhan o ofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ac mae angen ei gyhoeddi erbyn 31 Hydref bob blwyddyn. Caiff yr adroddiad ei archwilio'n fewnol gan Swyddfa Archwilio Cymru.<br><br>Gadawodd y Cynghorydd J. Millard y cyfarfod ar y pwynt hwn.<br><br>Mae Atodiad 1 yr adroddiad yn rhoi manylion ac yn amlygu'r gweithgareddau allweddol a chynnydd a wnaed ar bob un o Amcanion Llesiant y Cyngor.<br><br>**Addysg -** Roedd Arweinydd y Grŵp Llafur yn cydnabod pwysigrwydd y ddogfen hon a'i bod yn gydnaws gyda Chynllun Corfforaethol y Cyngor. Fodd bynnag, mynegodd ei bryder y dylai'r wybodaeth ynddo fod wedi bod yn fwy manwl ac yn adlewyrchiad manwl gywir. Fel esboniad, dywedodd er y cofnodwyd fod canlyniadau TGAU mewn ysgolion uwchradd wedi gwella, ei fod wedi derbyn gwybodaeth i'r gwrthwyneb fod Estyn yn arolygu un o'r ysgolion ar hyn o bryd oherwydd ei pherfformiad a fod canlyniadau wedi gostwng mewn ysgolion eraill.<br><br>Esboniodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg fod addysg yn cael ei ad-drefnu'n genedlaethol ar hyn o bryd ac fel rhan o'r broses bod y mesurau adrodd hefyd yn newid. Adeg paratoi'r ddogfen, y mesur adrodd oedd 'Lefel 2+' ac roedd perfformiad ar lefel TGAU yn ystod haf 2019 wedi cynyddu o 41.1% i 44.5%. Yn y dyfodol, y mesur adrodd cenedlaethol fyddai 'CAT 9'. | |

Unwaith eto mynegodd Arweinydd y Grŵp Llafur ei bryder fod yr wybodaeth a dderbynnir yn gwrthddweud ei hunan h.y. mae'r wybodaeth o fewn yr hunan-arfarnu yn dweud fod cynnydd da'n cael ei wneud ond mae Estyn yn arolygu ysgol oherwydd ei pherfformiad. Felly, dywedodd nad oedd yr hunan-asesiad yn rhoi darlun cywir.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg fod perfformiad wedi cynyddu o 41.1% i 44.5% ar gyfer mesur perfformiad cenedlaethol Lefel 2+ ar gyfer haf 2018. Mae'r perfformiad hwn yn cyfeirio at 5 TGAU yn cynnwys Saesneg a Mathemateg.

**Mesurau Cenedlaethol Atebolrwydd Cyhoeddus** - **21ain yng Nghymru ar gyfer clirio Tipio Anghyfreithlon -** dywedodd Aelod fod Blaenau Gwent bellach yn 21ain yng Nghymru yn nghyswllt y mesur hwn a gofynnodd am esboniad pam fod yr amserlen gyfartalog ar gyfer clirio tipio anghyfreithlon ym Mlaenau Gwent bron deirgwaith uwch na chyfartaledd Cymru. Dywedodd mai Blaenau Gwent oedd yr awdurdod oedd yn perfformio orau dan y weinyddiaeth flaenorol.

Cydnabu'r Aelod Gweithredol - Amgylchedd fod angen i'r ystadegau hyn wella ond fod mesurau yn cael eu cyflwyno i fynd i'r afael â'r mater hwn sy'n cynnwys cynnig cyfalaf ar gyfer Canolfan Ailgylchu Gwastraff Cartrefi newydd ac y byddai yn cymryd camau gweithredu i erlyn unigolion am droseddau tipio anghyfreithlon.

Mewn ateb i gwestiwn pellach dywedodd yr Aelod Gweithredol - Amgylchedd y byddai mesurau a chamau gweithredu yn cael eu rhoi mewn lle yn y dyfodol agos i wella perfformiad a sefyllfa Blaenau Gwent yn genedlaethol yn nhermau'r mesur hwn.

Dywedodd Aelod y cafodd y Pwyllgor Craffu yr oedd ei gylch gorchwyl yn cynnwys hwn gael ei ganslo ac y dylai'r mater fod wedi cael ei ystyried yn y Pwyllgor hwnnw a sefydlu gweithgor i edrych ar y mater. Cadarnhaodd yr Aelod Gweithredol - Amgylchedd y cyflwynir unrhyw adroddiad i'r Pwyllgor Craffu perthnasol ei ystyried.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol mai Blaenau Gwent fu'r awdurdod gyda'r perfformiad gorau am un flwyddyn. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn edrych ar hyn o bryd sut y gaiff data ystadegol ei gymharu ar draws pob awdurdod gan fod awdurdodau yn adrodd yn wahanol

ar y mesur 5 diwrnod. Er mwyn gwella perfformiad mae'r awdurdod yn edrych ar arfer gorau yn genedlaethol a bydd Llywodraeth Cymru yn cynghori ar y mesur adrodd yn y dyfodol.

**22ain yng Nghymru am y canran o sefydliadau bwyd oedd yn fras yn cydymffurfio gyda Safonau Glanweithdra Bwyd -** Mynegodd Aelod ei bryder mai Blaenau Gwent oedd yr awdurdod gyda'r perfformiad gwaethaf yng nghyswllt y mesur hwn a gofynnodd os oedd hyn oherwydd diffyg adnoddau. Cyfeiriodd at y geiriau 'yn fras yn cydymffurfio' a gofynnodd am sicrwydd fod safleoedd bwyd ym Mlaenau Gwent yn ddiogel i brynu bwyd ganddynt ac yn ddiogel i fwyta ynddynt gan fod angen rhoi sicrwydd i aelodau'r cyhoedd.

Cadarnhaodd yr Aelod Gweithredol - Amgylchedd nad oedd y sefyllfa yn foddhaol a dywedodd y cynhelir adolygiad manwl i wella perfformiad.

Ar bwynt o eglurhad, dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol fod y dangosydd sgorio yn fesur a briodolwyd ac yn berthnasol i'r sefydliad/person yn gweini'r bwyd ac nad oedd yn fesur i'r Cyngor yn nhermau cydymffurfiaeth gyda deddfwriaeth.

Felly nid oedd yn gwestiwn o berfformiad neu adnoddau'r Cyngor nac oherwydd nad yw'r Cyngor yn archwilio'r safleoedd - mae'r mesur hwn yn cyfeirio'n unig at y sefydliadau sy'n cydymffurfio gyda'r rheoliadau. Mae'r Cyngor yn bendant iawn yn cydymffurfio gyda deddfwriaeth Iechyd yr Amgylchedd i sicrhau fod bwyd yn ddiogel i'w brynu a'i fwyta.

Gadawodd y Cynghorydd L. Parsons y cyfarfod ar y pwynt hwn.

Cyfeiriodd Aelod at safleoedd bwyd-i-fynd a dywedodd, os oes nifer ddigonol o Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd, y gellid cynnal ymweliadau dychwel a chymryd camau priodol os nad yw busnesau yn cydymffurfio gyda'r rheoliadau.

Dychwelodd y Cynghorydd L. Parsons i'r cyfarfod ar y pwynt hwn.

**Data Presenoldeb Ysgolion/Lefelau Cyrhaeddiad -** mewn ateb i gwestiwn am ddata presenoldeb ysgolion, dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg mai dim ond ar rai adegau o'r flwyddyn y cyhoeddir data presenoldeb h.y. mis Mai a mis Hydref.

| | | |
|---|---|---|
| | Yng nghyswllt data presenoldeb 2017/18, roedd Blaenau Gwent yn ail yn ei deulu o awdurdodau lleol (Castell-nedd Port Talbot, Merthyr Tudful, Caerffili a Rhondda Cynon Taf) ar gyfer ysgolion cynradd ac yn drydydd ar gyfer ysgolion uwchradd. Yng nghyswllt absenoldeb heb awdurdod, mae Blaenau Gwent yn yr ail yn y teulu ar gyfer ysgolion cynradd ac yn gyntaf ar gyfer ysgolion uwchradd ac yng nghyswllt absenoldebau cyson, roedd Blaenau Gwent yn gydradd gyntaf yn y teulu ar gyfer ysgolion cynradd 1.7% ac am ysgolion uwchradd 4.1% - mae hyn yn is na chyfartaledd Cymru gyfan o 4.6% ar gyfer ysgolion uwchradd.<br><br>Cyfeiriodd yr Aelod at rai newidiadau sylweddol a ddigwyddodd mewn ysgolion uwchradd yn ystod 2018 a dywedodd ar y pryd fod bwlch sylweddol rhwng yr ysgolion sy'n perfformio orau a'r ysgolion sy'n perfformio waethaf. Er mwyn mynd i'r afael â'r mater rhoddwyd cryn dipyn o adnoddau i rai ysgolion i gau'r bwlch perfformiad a gofynnodd os oedd y newidiadau hyn wedi gwella lefelau perfformiad.<br><br>Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg y bu ad-drefnu cenedlaethol ar addysg ac y cyflwynwyd set newydd o adroddiadau mesur ar gyfer 2019 dan yr enw CAT 9 sy'n fesur seiliedig ar bwyntiau a ddyfernir i bob ysgol. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y cyflwynir adroddiad ar gyfer Rhanbarth Consortiwm De Ddwyrain Cymru i'r Pwyllgor Craffu (25 Hydref) ac wedyn i'r Pwyllgor Gweithredol sy'n rhoi manylion mesur adrodd newydd CAT 9. Mae pob ysgol wedi gwneud cynnydd yn nhermau perfformiad ar gyfer y flwyddyn academaidd hon. Nodwyd nad yw'r Lefel 2+ cyfredol yn fesur cenedlaethol a gaiff ei adrodd.<br><br>Dywedodd yr Aelod ei fod yn bryderus a'i fod eisiau sicrwydd fod y bwlch perfformiad rhwng yr ysgolion sy'n perfformio orau a'r ysgolion sy'n perfformio waethaf wedi gostwng. Dywedodd y Cadeirydd y caiff y mater ei drafod yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu Addysg a Dysgu.<br><br>**Rheoliadau Mewnol ac Allanol -** Cyfeiriodd Arweinydd y Grŵp Llafur ar dudalen 456 y ddogfen a chydnabu y cafodd rhai o'r prif benawdau a gafodd eu hadrodd. Fodd bynnag, mynegodd ei bryder fod Swyddfa Archwilio Cymru wedi cynnal gwaith yng nghyswllt yr Adolygiad o'r Gwasanaeth Hamdden ond na roddwyd peth o'r gwaith hwn a'r canfyddiadau i Aelodau. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Daeth i ben drwy ddweud y teimlai fod rhai agweddau o'r Hunan-asesiad hwn yn 'rhy gadarnhaol' ac nad yw rhai agweddau yn ddigon cywir ac y dylai asesiad perfformiad y flwyddyn nesaf fod wedi'i fesur yn well.<br><br>Mewn pleidlais unfrydol,<br><br>PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a bod yr Asesiad Perfformiad 2018/19 yn cael ei gymeradwyo a'i gyhoeddi cyn 31 Hydref 2019. | |
| **No. 30** | **PARATOADAU AR GYFER GADAEL YR UNDEB EWROPEAIDD**<br><br>Cyflwynwyd adroddiad y cyd Swyddogion i gael eu hystyried.<br><br>Dechreuodd y Rheolwr Gyfarwyddwr drwy ddweud fod hwn yn bwnc cyfoes iawn ar hyn o bryd a bod yr adroddiad yn rhoi diweddariad i Aelodau ar y gwaith paratoi a wnaed yn y Cyngor i baratoi ar gyfer i'r Deyrnas Unedig adael yr Undeb Ewropeaidd.<br><br>Nodwyd y cafodd yr adroddiad hefyd ei ystyried yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol yn rhoi manylion y materion a chanlyniadau gadael yr Undeb Ewropeaidd ac yn ychwanegol cynhaliwyd sesiwn wybodaeth i Aelodau ar 16 Hydref a roddodd gyfle i Aelodau ymchwilio'r materion ymhellach. Nodwyd y cynhaliwyd sesiwn wybodaeth i Aelodau ym mis Ionawr 2019 pan mai'r diwrnod gadael a fwriadwyd bryd hynny oedd 31 Mawrth 2019.<br><br>Er bod y dyddiad a'r ffordd y bydd y Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd yn ansicr iawn, cynhaliwyd asesiad effaith penodol ar Brexit ac mae'r gwaith yn parhau i sicrhau y gall y Cyngor a'r gymuned i ddelio gyda chanlyniad gadael.<br><br>Byddai gwaith paratoi yn awr yn parhau wedi'i alinio gyda dyddiad gadael o 31 Hydref 2019. Mae'r Cyngor hefyd yn gweithio mewn partneriaeth ac fel rhan o Rwydwaith Cymru gyfan. Mae gwaith hefyd yn parhau mewn cysylltiad â Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i sicrhau fod paratoadau yn gydlynus ar draws llywodraeth genedlaethol a llywodraeth leol.<br><br>Nodwyd fod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cynllun gweithredu ar gyfer Brexit heb gytundeb. Mae Blaenau Gwent wedi cynnal | |

| | | |
|---|---|---|
| | asesiad effaith lefel uchel sy'n dynodi sut y byddai'r risgiau hyn yn effeithio ar y gymuned a'r gwaith a wnaed i liniaru'r risgiau hynny. Roedd risgiau lefel uchel yn cynnwys colli cyllid yr Undeb Ewropeaidd ac ymyrryd ar gadwyni cyflenwi. Byddai hefyd effaith ar weithlu busnesau a chyflenwyr lleol. Felly, byddai angen cadw golwg barhaus ar y materion hyn o fewn y gymuned.<br><br>Gadawodd y Cynghorydd J. C. Morgan y cyfarfod ar y pwynt hwn.<br><br>Roedd gadael yr Undeb Ewropeaidd hefyd wedi ei ddynodi fel risg yn y gofrestr risg corfforaethol. Byddai Aelodau yn cofio y cynhaliwyd trafodaeth mewn cyfarfod diweddar i fonitro'r gyllideb lle soniwyd y gallai hefyd fod risg bosibl i gyllideb y Cyngor ei hun. Mae swyddogion hefyd yn gweithio gyda'r Fforwm Cydnerthedd Lleol i i fynd i'r afael ag unrhyw faterion argyfyngau sifil posibl ac roedd swyddogion yn rhan o drefniadau Operation Yellow Hammer. I sicrhau y caiff pob cam rhesymol eu cymryd er mwyn i'r Cyngor fod mor barod ag y gallai'n bosibl fod, caiff y trefniadau hyn eu cynyddu yn barod ar gyfer 31 Hydref.<br><br>Dywedodd y Rheolwr Gyfarwyddwr ei bod yn gwerthfawrogi fod y sefyllfa'n parhau'n ansicr iawn - hyd yn oed pe byddai'r gadael yn digwydd ar 31 Hydref ni ddisgwylid unrhyw effaith dros nos - byddai hyn yn dod yn amlwg dros yr wythnosau a misoedd i ddod. Roedd hyn yn enghraifft dda o holl wasanaethau'r Cyngor yn cydweithio er mwyn ceisio lliniaru'r sefyllfa a allai ddigwydd yn y dyfodol. Daeth y Rheolwr Gyfarwyddwr i ben drwy ddweud, wrth i'r sefyllfa ddatblygu, y byddai cyfathrebu'n parhau gydag Aelodau ac y rhoddir gwybodaeth i'r cyhoedd ar faterion fel y deuant yn amlwg.<br><br>Gadawodd y Cynghorydd S. Thomas y cyfarfod ar y pwynt hwn.<br><br>Canmolodd Aelod yr adroddiad ond mynegodd ei bryder y gwyddai o wybodaeth a dderbyniwyd fod hefyd bosibilrwydd o brinder bwyd a allai effeithio ar y Cyngor e.e. prydau ysgol ac y gallai hefyd fod problem o ran parhad cyflenwadau meddygol.<br><br>Dychwelodd y Cynghorydd S. Thomas i'r cyfarfod ar y pwynt hwn.<br><br>Aeth yr Aelod ymlaen drwy ddweud fod astudiaethau cyllidol hefyd yn nodi'r posibilrwydd o ddiffyg £100bn yn yr Undeb Ewropeaidd a allai sbarduno llymder ac amddifadedd a allai gael effaith niweidiol ar Flaenau Gwent, ei phreswylwyr a Gwasanaethau Cymdeithasol. | |

Dychwelodd y Cynghorydd J. C. Morgan i'r cyfarfod ar y pwynt hwn.

Mewn ymateb i gwestiwn ar Operation Yellow Hammer, cadarnhaodd y Rheolwr Gyfarwyddwr y dynodwyd y risgiau fel rhan o fanylion yr adroddiad. Dywedodd y Rheolwr Gyfarwyddwr yng nghyswllt:-

- Cyflenwadau bwyd - mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n agos gyda chyflenwyr ond nad oedd unrhyw broblemau disgwyliedig yn cael eu hamlygu ar hyn o bryd.
- Mae'r trefniadau ar gyfer tanwydd yn cael eu trin drwy argyfyngau sifil posibl a derbyniwyd sicrwydd y gallai tanwydd gael ei reoli ar lefel Cymru gyfan.
- Mae Gwasanaethau Cymdeithasol yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr mewn Iechyd - roedd parhad cyflenwadau meddygol yn broblem allweddol a amlygwyd.
- Cyllideb y Cyngor - byddai adroddiadau chwarterol yn monitro'r gyllideb yn dangos unrhyw risgiau posibl fel y gallant effeithio yn y dyfodol ac y byddai'n rhaid rhoi ystyriaeth i'r risgiau hyn yn Strategaeth Ariannol Tymor Canol y Cyngor.

Dywedodd y Swyddog Polisi fod Llywodraeth y Deyrnas Unedig hefyd wedi cyhoeddi Adroddiad Parodrwydd sy'n cynnwys camau paratoi pwysig ar gyfer awdurdodau lleol, busnesau a chyrff trydydd sector.

**Cydlyniaeth Gymunedol -** Cyfeiriodd Aelod at gydlyniaeth gymunedol a dywedodd y gwnaed gwaith gwych yng nghyswllt y Rhaglen Ailsefydlu. Mae angen i swyddogion fod yn ymwybodol o'r rhaglen hon i sicrhau nad yw Brexit yn effeithio arnynt.

Dechreuodd yr Aelod drwy ddweud ei fod yn ymwybodol:-

- fod nifer sylweddol o ddinasyddion Ewropeaidd yn gweithio i'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a meddygon teulu
- y gall fod mewnlif o ddinasyddion Prydeinig yn dychwelyd o'r Undeb Ewropeaidd i'r Deyrnas Unedig a Blaenau Gwent yn neilltuol a bod angen cydlynu gyda landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a all fod ag eiddo gwag ar gael i letya'r mewnlif hwn o bobl; a
- bod y rhan fwyaf o insiwlin yn cyrraedd o Ewrop ac y gallai hyn o bosib arwain at brinder insiwlin.

| | | |
|---|---|---|
| | Dywedodd y Swyddog Polisi fod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn cyfathrebu ar hyn o bryd gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig i gael gwell dealltwriaeth o ddinasyddion y Deyrnas Unedig sy'n preswylio yn Ewrop.<br><br>Dywedodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol fod mater cyflenwadau meddygol yn broblem sy'n wynebu'r Deyrnas Unedig i gyd a bod Gwasanaethau Cymdeithasol yn gweithio gyda chydweithwyr mewn Iechyd oedd wedi pentyrru meddyginiaeth am gyfnod o 6 mis. Nodwyd y medrid pentyrru 95% o feddyginiaethau ond bod 5% o feddyginiaethau (yn cynnwys inswlin) na fedrid cyrchu cyfeintiau digonol ohonynt. Mae meddygon teulu yn ceisio lliniaru a mynd i'r afael â'r broblem drwy argymell newid meddyginiaeth ar gyfer rhai cleifion ond mae gwaith yn parhau o fewn Iechyd i drin y mater hwn.<br><br>Dywedodd Aelod fod y cyflenwad o wrthfiotegau hefyd yn achosi pryder.<br><br>Gadawodd y Cynghorydd J. P. Morgan y cyfarfod ar y pwynt hwn.<br><br>Canmolodd Aelod arall yr adroddiad ardderchog a dywedodd ei fod yn hyderus dan yr amgylchiadau fod Blaenau Gwent mor barod ag y gallai fod. Gofynnodd i'r Rheolwr Gyfarwyddwr gyfleu'r sylwadau hyn i'r swyddogion dan sylw.<br><br>Gadawodd y Cynghorydd P. Edwards y cyfarfod ar y pwynt hwn.<br><br>Mewn pleidlais unfrydol<br><br>PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a nodi'r gwaith paratoi sy'n mynd rhagddo i baratoi ar gyfer i'r Deyrnas Unedig adael yr Undeb Ewropeaidd.<br><br>Gadawodd y Cynghorydd J. P. Morgan y cyfarfod ar y pwynt hwn. | |
| **No. 31** | **<u>DIWYGIADAUI'R CYFANSODDIAD</u>**<br><br>Ail-ymunodd y Cynghorydd J. P. Morgan â'r cyfarfod ar y pwynt hwn.<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Nodwyd fod y diwygiadau arfaethedig yn ganlyniad newidiadau yn deillio o Gyfarfod Blynyddol y Cyngor a hefyd i adlewyrchu ymarfer gweithredol cyfredol a newidiadau mewn gofynion deddfwriaethol.<br><br>Mewn pleidlais unfrydol,<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chymeradwyo'r diwygiadau a awgrymwyd a'u hymgorffori yn y Cyfansoddiad presennol. | |
| **No. 32** | **<u>ADNEWYDDU GORCHMYNION GWARCHOD MANNAU AGORED I'R CYHOEDD AR GYFER TROSEDDAU RHEOLI CWN - CANLYNIADAU YMGYNGHORIADAU STATUDOL</u>**<br><br>Ystyriodd Aelodau adroddiad y Rheolwr Gwasanaeth - Diogelu'r Cyhoedd.<br><br>Siaradodd yr Aelod Gweithredol - Amgylchedd yn fanwl am yr adroddiad sy'n hysbysu'r Cyngor am ganfyddiadau'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynnig newydd ar gyfer Gorchymyn Diogelu Mannau Agored i'r Cyhoedd ar gyfer Troseddau Rheoli Cŵn a cheisio cymeradwyaeth ar gyfer y Gorchymyn newydd i ddechrau ar 1 Tachwedd 2019.<br><br>Dywedodd Aelod ei bod yn hollol gefnogol i'r Gorchmynion newydd ond dywedodd hefyd ei fod yn bwysig bod y Gorchmynion yn cael eu gorfodi. Esboniodd y cafodd nifer o gemau rygbi yn Blaenau eu canslo mewn wythnosau diweddar oherwydd faint o faw cŵn oedd ar y caeau. Roedd baw cŵn yn broblem iechyd ddifrifol a allai arwain at golli golwg.<br><br>Dychwelodd y Cynghorydd P. Edwards i'r cyfarfod ar y pwynt hwn.<br><br>Aeth yr Aelod ymlaen drwy gydnabod y gwyddai nad yw bob amser yn rhwydd dal tramgwyddwyr ond fod y broblem yn effeithio'n ddifrifol ar barciau a bod gweithredu gorfodaeth wedi gostwng mewn blynyddoedd diweddar. Gofynnodd am sicrwydd y byddai mwy o batrolau yn yr ardal.<br><br>Cadarnhaodd yr Aelod Gweithredol - Amgylchedd fod y sefyllfa yn Blaenau yn ofnadwy ac nad oedd y sefyllfa gyffredinol yn dderbyniol a dywedodd y gorfodid y Gorchmynion pe baent eu | |

| | | |
|---|---|---|
| | cymeradwyo. Mae adolygiad o'r holl gwasanaeth gorfodaeth yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i roi mwy o gydnerthedd i drin y mathau yma o broblemau. Cyflwynir adroddiad i Aelodau ei ystyried unwaith y cwblhawyd yr adolygiad.<br><br>Dywedodd Aelod ei fod hefyd yn cefnogi'r Gorchmynion a dywedodd y dylai hon fod yn ddogfen hylif yn hytrach na'i hadolygu bob 3 blynedd. Dywedodd y bu nifer o drosglwyddo tiroedd CAT mewn misoedd diweddar ac y gall y sefydliadau hyn fod â syniadau ar sut i drin y problemau hyn.<br><br>Gadawodd y Cynghorydd S. Healy y cyfarfod ar y pwynt hwn.<br><br>Dywedodd Aelod arall fod iechyd a diogelwch yn hollbwysig ar gyfer plant ifanc y dylent fedru chwarae yn ddiogel. Mae angen cynyddu gorfodaeth ac erlyniad yn unol â hynny. Mae hefyd angen codi nifer ddigon o hysbysiadau cyhoeddus yn hysbysu am y Gorchmynion Gwarchod Mannau Agored i'r Cyhoedd ar gyfer Troseddau Rheoli Cŵn.<br><br>Dychwelodd  Cynghorydd S. Healy i'r cyfarfod ar y pwynt hwn.<br><br>Soniodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol, yn ychwanegol at weithredu gorfodaeth, fod perchnogion yn gyfrifol am ofalu am eu cŵn. Er ei bod yn anodd dal y tramgwyddwyr, maent yn cael eu herlyn os cânt eu dal. Fodd bynnag, os gall Aelodau godi ymwybyddiaeth o'r problemau mewn ardaloedd neilltuol, y gellir clustnodi adnoddau swyddogion i'r ardaloedd hynny. Nodwyd fod gan y Cyngor bedwar Swyddog Gorfodaeth ar hyn o bryd a ddefnyddir ledled y Fwrdeistref Sirol ond ceisir cydnerthedd pellach fel rhan o'r broses adolygu.<br><br>Mewn pleidlais unfrydol<br><br>PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef cymeradwyo'r Gorchymyn Diogelu Mannau Agored i'r Cyhoedd ar gyfer Troseddau Rheoli Cŵn yn newydd ar gyfer dechrau ar 1 Tachwedd 2019. | |
| **No. 33** | **<u>BLAENGLYNLLUN AMRYWIAETH A CHYDNERTHEDD ECOSYSTEM (2019-2022)</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Siaradodd yr Aelod Gweithredol - Amgylchedd yn fanwl am yr adroddiad a thynnu sylw at bwyntiau ynddo.<br>Dywedodd y Cadeirydd y dylai mater ynni, yn arbennig oleuadau stryd, gael ei drafod fel rhan o'r Cynllun.<br><br>Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol fod hwn yn adroddiad amserol iawn yn arbennig yng ngoleuni adroddiadau am newid hinsawdd. Mae'r Cynllun hwn yn rhan bwysig iawn o ddelio gyda newid hinsawdd o Flaenau Gwent ac er nad oedd mater ynni wedi'i gynnwys yn benodol o fewn y Cynllun, gellid cynnwys hyn mewn meysydd eraill o waith y Cyngor a chyfeirio ato yn y Cynllun yn y dyfodol.<br><br>Cyfeiriodd Aelod arall at wobr ddiweddar a dderbyniwyd ar gyfer stad tai a ddatblygwyd mewn modd ecolegol a chanmolodd y mathau hyn o brosiectau.<br><br>Mewn pleidlais unfrydol,<br><br>PENDERFYNWYD, yn unol â'r uchod, i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 2, sef cymeradwyo Blaengynllun Gwaith Cydnerthedd Bioamrywiaeth ac Ecosystem 2019/2022.<br><br>Dychwelodd y Cynghorydd J. Millard i'r cyfarfod ar y pwynt hwn. | |
| **No. 34** | **<u>CAIS I GAFFAEL TIR YMMHARC BEDWELLTE</u>**<br><br>Ystyriodd Aelodau adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol.<br><br>Gadawodd y Cynghorydd J. Millard y cyfarfod ar y pwynt hwn.<br><br>Siaradodd yr Aelod Gweithredol - Amgylchedd am yr adroddiad a gyflwynwyd i gael cymeradwyaeth y Cyngor (yn gweithredu fel Ymddiriedolwyr elusen Tŷ a Pharc Bedwellte) i drosglwyddo parsel o dir i Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan i'w ddefnyddio fel rhan o'r cynnig am Ganolfan Iechyd a llesiant Tredegar.<br><br>Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol fod hon yn broses statudol ac, os cytunir, byddai angen cael caniatâd y Comisiwn Elusennau i waredu â'r tir. Nodwyd y cynhaliwyd ymgynghoriad helaeth am y cynnig ac y defnyddid y tir ar gyfer plaza gwyrdd - ni fyddai unrhyw golled o | |

| | | |
|---|---|---|
| | ofod amwynder i'r gymuned os caiff y cynnig ei gymeradwyo.<br><br>Er y byddai wedi bod yn well ganddo opsiwn prydles, dywedodd Arweinydd y Grŵp Llafur ei fod o blaid Opsiwn 1.<br><br>Mewn pleidlais unfrydol,<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef bod y Cyngor fel Ymddiriedolwyr Elusennol yn cytuno i egwyddor gwaredu'r ardal o dir naill ai ar sail rhydd-ddaliad neu brydles hir i Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan i'w gynnwys o fewn datblygiad y cynnig am Ganolfan Iechyd a Llesiant ar delerau i gael eu cytuno yn amodol ar:-<br><br>(i) Llwyddo i gael caniatâd y Comisiwn Elusennol i'r gwarediad, sy'n rhaid ei gael cyn gweithredu trosglwyddiad.<br><br>(ii) Ystyried goblygiadau (os oes rhai) am y cyfamod cyfyngol a gynhwysir yn nhrosglwyddiad tir 1910 i Gyngor Ardal Trefol Tredegar.<br><br>(iii) Hysbysebu'r trosglwyddiad arfaethedig dan a.123 Deddf Llywodraeth Leol 1972 a rhoi ystyriaeth i unrhyw sylwadau a wnaed.<br><br>(iv) Hysbysebu'r gwarediad yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011 fel y manylir ym mharagraff 5.3.3 yr adroddiad.<br><br>(v) Cymryd cyngor priodol gan syrfëwr gyda chymwysterau RICS ar ddull y trosglwyddo a'r trosglwyddiad.<br><br>(vi) Fel y manylir ym mharagraff 5.1.1 yr adroddiad, neilltuo unrhyw gyfalaf a dderbynnir i'w ddefnyddio gan yr elusen ac nid ei gronni i'w ddefnyddio gyda Chronfa Gyffredinol y Cyngor. | |
| **No. 35** | **<u>CYNLLUN DATBLYGU STRATEGOL - ARDAL PRIFDDINAS-RANBARTH CAERDYDD</u>**<br><br>Cyflwynwyd adroddiad y cyd Swyddogion ar gyfer ei ystyried.<br><br>Siaradodd yr Aelod Gweithredol - Adfywio a Datblygu Economaidd | |

| | | |
|---|---|---|
| | yn fyr am yr adroddiad ac esboniodd fod datblygu cynllun datblygu strategol ar gyfer Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn brosiect allweddol. Er mwyn symud ymlaen gyda pharatoi'r cynllun yn rhanbarthol, cynigiwyd sefydlu Panel Cynllunio Strategol a fyddai'n cynnwys o leiaf un aelod o bob awdurdod. Dyrannwyd un Aelod ar y panel ac un bleidlais i Flaenau Gwent yn unol â'r dyraniad pleidleisio pwysedig.<br><br>Nodwyd na fyddai sefydlu'r Panel yn lleihau cylch gorchwyl y Pwyllgorau Cynllunio ym mhob bwrdeistref.<br><br>Byddai cost sefydlu a rhedeg y panel am y 5 mlynedd cyntaf yn £3m pro rata ar draws pob awdurdod ac i Flaenau Gwent byddai hyn yn £136,590 mewn camau dros 5 mlynedd fyddai'n gyfwerth â £25,318.<br><br>Mynegodd yr Aelod Gweithredol ei ddiolch i'r Rheolwr Tîm - Rheoli Adeiladu a Chynlluniau Datblygu a'i thîm am eu gwaith gwych ar y Cynllun Datblygu Lleol. Cynigwyd penodi'r Cynghorydd Mandy Moore yn rhinwedd ei swydd fel Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio i gynrychioli Blaenau Gwent ar y Panel Cynllunio Strategol.<br><br>Dywedodd Arweinydd y Grŵp Llafur ei fod yn frwd i hyrwyddo'r cysyniad hwn ac yn ei gefnogi. Cyfeiriodd at benodi'r Panel Cynllunio Strategol a dywedodd y byddid yn dirprwyo cyfrifoldeb i'r cynrychiolydd wneud penderfyniadau ar ran y Cyngor ac y teimlai y dylid bod wedi penodi Aelod Gweithredol i'r swydd. Daeth i ben drwy ofyn am y rhesymeg dros y penodiad ac eglurdeb yn nhermau lefel y gydnabyddiaeth ariannol.<br><br>Eglurodd yr Aelod Gweithredol - Adfywio a Datblygu Economaidd i'r penodiadau i'r Panel gael eu penderfynu gan yr Arweinydd ac i'r Aelod gael ei henwebu yn rhinwedd ei swydd fel Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio gan fod y Cynllun Datblygu Safonol o fewn cylch gorchwyl y portffolio hwn. Er na fedrai egluro penodiadau i'r Panel gan awdurdodau lleol eraill yn nhermau cydnabyddiaeth ariannol, ni fyddai unrhyw daliadau cyfrifoldeb uniongyrchol - dim ond treuliau teithio fyddai'n cael eu had-dalu.<br><br>Dywedodd Arweinydd y Cyngor ei bod wedi cymryd peth amser ac wedi bod yn broses anodd i gyrraedd y sefyllfa hon ac y bu llawer o drafodaethau ar hyd y ffordd a chanmolodd y swyddogion am eu gwaith mawr. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Cadarnhaodd nad oedd y trefniadau apwyntiad yn wahanol i'r hyn y mae awdurdodau eraill yn ei awgrymu a'i bod yn hollol iawn bod symudiad cryf i sicrhau cydbwysedd rhwng y rhywiau ar y pwyllgor a'i fod yn bersonol falch y gellid cefnogi'r cais. Roedd hefyd ddadl gref i ledaenu profiad unigol a chynllunio olyniaeth. Cadarnhaodd fod yr adroddiad yn parhau'n dawel ar unrhyw beth heblaw costau teithio.<br><br>Mewn pleidlais unfrydol<br><br>PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 2, sef paratoi Cynllun Datblygu Strategol ar gyfer Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a chytunwyd:-<br><br>- Mai Bro Morgannwg fyddai'r Awdurdod Cyfrifol ar gyfer dibenion paratoi'r Cynllun Datblygu Strategol ar gyfer Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.<br><br>- Awdurdodi'r Awdurdod Cyfrifol i gyflwyno'r cynnig am Gynllun Datblygu Strategol ar gyfer Prifddinas-Ranbarth Caerdydd i'r Gweinidog ar ran y 10 Awdurdod Cynllunio Lleol yn y rhanbarth.<br><br>- Bod yr ardal cynllunio strategol yn cynnwys y 10 ardal awdurdod cynllunio lleol o fewn Prifddinas-Ranbarth Caerdydd fel y'u dangosir ar y map ynghlwm yn atodiad A yr adroddiad.<br><br>- Bod y swyddogion perthnasol yn ymgysylltu gyda Llywodraeth Cymru wrth lunio rheoliadau'r Cynllun Datblygu Strategol i gyflenwi'r trefniadau llywodraethiant ar gyfer y Cynllun Datblygu Strategol fel yr amlinellir yn yr adroddiad.<br><br>- Cytuno ar sefydlu'r Panel Cynllunio Strategol Interim cyn sefydlu'r Panel Cynllunio Strategol yn ffurfiol. Yr Aelod a enwebwyd ar gyfer y Cynghorydd hwn yw'r Cynghorydd Mandy Moore (Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio) ar y Panel Strategol Interim. Dirprwywyd awdurdod i'r Cynghorydd i gymryd penderfyniad dechreuol ar baratoi'r Cynllun Datblygu Strategol (gyda phleidlais wedi'i phwysoli yn unol â'r tabl yn Argymhelliad 4(i)) ac wedyn ar y Panel Cynllunio Strategol.<br><br>- Pe na byddai'r Aelod mwyach yn eistedd ar y Panel Cynllunio Strategol Interim, dirprwyo awdurdod i Arweinydd y | |

| | | |
|---|---|---|
| | Cyngor i enwebu Aelod newydd i gynrychioli'r Cyngor ar y Panel Cynllunio Strategol Interim a'r Panel Cynllunio Strategol.<br><br>- Bod tîm Swyddogion Cynllun Datblygu Strategol rhanbarthol i symud ymlaen i baratoi'r Cynllun i'w benodi gan gynrychiolwyr y Panel Cynllunio Strategol Interim gyda chefnogaeth adnoddau dynol priodol gan yr Awdurdod Cyfrifol. | |
| **No. 36** | **<u>ADBORTH/GWYBODAETH GAN GYRFF ALLANOL: AWDURDOD TAN AC ACHUB DE CYMRU</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a gynhyrchwyd gan y Cynghorydd Julie Holt, y cynrychiolydd a benodwyd gan y Cyngor ar Awdurdod Tân ac Achub De Cymru.<br><br>Dywedodd Aelod ei fod yn falch iawn y derbynnir adborth gan yr Aelodau hynny a benodwyd i gyrff allanol a'i fod wedi hybu hyn ers cryn amser.<br><br>Mewn pleidlais unfrydol,<br><br>PENDERFYNWYD i dderbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo. | |
| **No. 37** | **<u>ADBORTH/GWYBODAETH GAN GYRFF ALLANOL: AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL BANNAU BRYCHEINIOG</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a gynhyrchwyd gan y Cynghorydd John Hill, y cynrychiolydd a benodwyd gan y Cyngor ar Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at broblemau a geir gyda beiciau modur oddi ar yr hewl yn ardal Tredegar (ar y ffin gyda'r Parc Cenedlaethol) a gofynnodd os cafodd y mater hwn ei godi yng nghyfarfodydd Awdurdod y Parc. Dywedodd y Cynghorydd Hill y gall y mater fod wedi cael ei adrodd yn uniongyrchol i swyddogion y Parc Cenedlaethol a dywedodd y byddai'n ymchwilio'r mater.<br><br>Mewn pleidlais unfrydol, | |

| | | |
|---|---|---|
| | PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo. | |
| **No. 38** | **<u>PWYLLGOR SAFONAU</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Gorffennaf 2019.<br><br>Mewn pleidlais unfrydol,<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo. | |
| **No. 39** | **<u>ADRODDIAD AELODAETH</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i:-<br><br>**<u>GAVO – Pwyllgor Lleol</u>**<br><br>PENDERFYNWYD y byddai'r Cynghorydd John Mason yn cymryd lle'r Cynghorydd Keri Rowson ar Bwyllgor Lleol GAVO.<br><br>**<u>Pwyllgor Ymgynghorol ar gyfer Llywodraethwyr Ysgolion yr Awdurdod Lleol</u>**<br><br>Gwnaed yr argymhellion dilynol gan y Panel ar 1 Hydref 2019 i benodi:-<br><br>Natasha Tepielow – ***Ysgol Gynradd Blaen-y-Cwm***<br>Stephanie Hopkins – ***Ysgol Sylfaen Brynmawr***<br>Natalie Marshall – ***Ysgol Gynradd Cwm***<br>Cynghorydd Jonathan Millard – ***Cymuned Ddysgu Ebwy Fawr***<br>Cynghorydd David Davies – ***Ysgol Gynradd Trehelyg***<br><br>Mewn pleidlais unfrydol,<br><br>PENDERFYNWYD cymeradwyo'r apwyntiadau uchod. | |
| **No. 40** | **<u>EITEM(AU) A GAFODD EU HEITHRIO</u>**<br><br>Ar ôl ystyried y sylwadau a fynegwyd gan y Swyddog Priodol am y prawf budd cyhoeddus, o bwyso a mesur popeth, bod y budd cyhoeddus mewn cynnal yr eithriad yn fwy na'r budd cyhoeddus mewn datgelu'r wybodaeth ac y dylid eithrio'r adroddiadau dilynol. | |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| **No. 41** | **ADOLYGIADAU ACHOS: PROSES DROSGLWYDDO ASEDAU CYMUNEDOL, DEWIS DEFNYDDWYR CYMERADWY**<br><br>Datganodd y Cynghorydd J. C. Morgan fuddiant yn yr eitem, ond arhosodd yn y cyfarfod pan oedd yn cael ei thrafod.<br><br>Ar ôl ystyried y sylwadau a fynegwyd gan y Swyddog Priodol am y prawf budd cyhoeddus, o bwyso a mesur phopeth, bod y budd cyhoeddus mewn cynnal yr eithriad yn fwy na'r budd cyhoeddus mewn datgelu'r wybodaeth ac y dylid eithrio'r adroddiadau dilynol.<br><br>PENDERFYNWYD eithrio'r cyhoedd tra bod yr eitem o fusnes yn cael ei thrafod gan ei bod yn debygol y byddai datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymdeithasol.<br><br>Soniodd y Rheolwr Gwasanaeth Datblygu a Stadau am y broses adolygu gadarn a gynhaliwyd ar sail achos wrth achos a rhoddodd fanylion y tri achos unigol a'r opsiynau a ffafrir a gynhwysir ynddynt.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at Apêl Rhif 2 a dywedodd fod gwahaniaethau hanesyddol rhwng y ddau glwb a theimlai na fyddai peidio caniatáu'r apêl yn cymodi'r gwahaniaethau hyn a chynigiodd gymeradwyo Opsiwn 2 a chaniatáu'r apêl a chyfeiriwyd yr achos yn ôl at y Panel Dethol i ailasesu'r achos.<br><br>Mewn pleidlais<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad sy'n cyfeirio at faterion ariannol neu fusnes unrhyw berson neilltuol (yn cynnwys yr awdurdod ac<br><br>- Apêl 1: – mewn pleidlais unfrydol penderfynwyd cymeradwyo Opsiwn 1 sef gwrthod yr apêl a chadarnhau'r penderfyniad gwreiddiol i ddyfarnu'r Trosglwyddiad Ased Cymunedol i'r sefydliad a enwir yn yr adroddiad.<br><br>- Apêl 2 - mewn pleidlais, penderfynwyd cymeradwyo Opsiwn | |

| | | |
|---|---|---|
| | 1 sef gwrthod yr apêl a chadarnhau'r penderfyniad gwreiddiol i ddyfarnu'r Trosglwyddiad Ased Cymunedol i'r sefydliad a enwir yn yr adroddiad.<br><br>Gofynnodd y Cynghorydd H. McCarthy i'w enwi gael ei gofnodi yn erbyn y penderfyniad hwn.<br><br>- Apêl 3: – mewn pleidlais unfrydol penderfynwyd cymeradwyo Opsiwn 2, sef caniatáu'r apêl ac atgyfeirio'r achos yn ôl i'r Panel Dethol i ailasesu'r achos yng ngoleuni tystiolaeth a gwybodaeth bellach yn deillio o'r broses apêl. | |
| **No. 42** | **<u>LLUNIO RHESTR FER SWYDDOGION (JNC)</u>**<br><br>Ar ôl ystyried y sylwadau a fynegwyd gan y Swyddog Priodol am y prawf budd cyhoeddus, o bwyso a mesur phopeth, bod y budd cyhoeddus mewn cynnal yr eithriad yn fwy na'r budd cyhoeddus mewn datgelu'r wybodaeth ac y dylid eithrio'r adroddiadau dilynol.<br><br>PENDERFYNWYD eithrio'r cyhoedd tra bod yr eitem o fusnes yn cael ei thrafod gan ei bod yn debygol y byddai datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12 a 13, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Medi 2019.<br><br>Mewn pleidlais unfrydol,<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad sy'n cyfeirio at faterion staffio a'r penderfyniad a gynhwysir ynddo. | |